POLISI CASGLU A GWAREDU
GWASANAETH ARCHIFAU GWYNEDD

Diffinnir dogfennau fel tystiolaeth mewn llawysgrifen, cofnodion printiedig, mapiau, cynlluniau, darluniau topograffaidd, ffotograffau, tystiolaeth lafar, cofnodion cyfrifiadurol, tapiau sain a fideo a ffilm.

1. Mae Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd trwy hyn yn cyhoeddi ei bolisi casglu a adolygir o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Dylid gwneud casgliadau y tu allan i'r polisi cyfredol fel y'i datganwyd mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, a hyd yn oed wedyn ond wedi ystyriaeth briodol gan y Cyngor ei hun gan gadw mewn cof fuddiannau storfeydd eraill.

2. Y mae Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn casglu yn unol â'r awdurdod a roddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1962 a 1972ac Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Y mae'r Gwasanaeth yn ceisio cynnal safonau rhyngwladol a phroffesiynol wrth gasglu dogfennau gan gadw at bob deddfwriaeth archifol gyfredol parthed Archifdai yng Nghymru. Pennwyd gan yr Arglwydd Ganghellor bod archifdai Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn geidwaid cofnodion cyhoeddus lleol o dan Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958.

3. Bydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn casglu eitemau ar gyfer ei gasgliad craidd yn unig os oes a wnelont a siroedd hanesyddol Caernarfon a Meirionnydd ac eithrio am eitemau o'r tu allan i'r ardal a fydd â chysylltiad agos a'r ardal neu fydd yn gwella dealltwriaeth o Wynedd. Yn unol a'r Cynllun a wnaed dan Adran 60 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, mae'r gwasanaeth wedi trosglwyddo casgliadau y profwyd eu bod yn perthyn i Gonwy gyda chytundeb y sawl a'u rhoes i archifdy Conwy. Mae trosglwyddo o'r fath yn ddarostyngedig i'r egwyddor cyffredinol y dylid cadw hunaniaeth y grwpiau archifol i'r graddau y bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol.

4. Bydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn casglu rhai copïau dyblyg yn enwedig at ddibenion gwasanaeth addysg yr archifau.

5. Bydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn casglu:

   5.1 Cofnodion Cyngor Gwynedd ei hun a'i ragflaenwyr.

   5.2 Cofnodion awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill yn gweithredu yn Ngwynedd.

   5.3 Cofnodion cyhoeddus fel y'u cynigiwyd i'r Gwasanaeth dan delerau Deddf Cofnodion Cyhoeddus.

5.4 Cofnodion sefydliadau, busnesau, unigolion a gweithgareddau eraill sy'n berthnasol i hanes y Sir.

5.5 Cofnodion eglwysig a ddynodwyd gan esgobion Bangor a Llanelwy fel rhai i'w rhoi i Wasanaeth Archifau Gwynedd.

5.6 Rhai cofnodion nad ydynt yn ymwneud â Gwynedd ond a fyddai'n berthnasol i ddaliadau Gwasanaeth Amgueddfeydd yr Awdurdod.

5.7 Ni fydd y Gwasanaeth Archifau yn ceisio cynrychioli unrhyw safbwyntiau hanesyddol, enwadol nac arall arbennig wrth gael ei gofnodion, ond bydd yn adlewyrchu mor wrthrychol ag sydd modd bob agwedd o orffennol a phresennol y sir.

6. Bydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn casglu dogfennau trwy drosglwyddiad, rhodd a phwrcas, a thrwy fenthyciad yn ôl yr amodau cyffredinol ar gyfer cadw cofnodion yn archifdai Cyngor Gwynedd (gydag unrhyw amodau ychwanegol fel y'u trafodwyd gyda'r rhoddwyr yn unigol).

7. **Gwaredu**

7.1 Bydd gan Wasanaeth Archifau Gwynedd yr hawl i drosglwyddo grwpiau o archifau i repository fwy addas os teimlir y byddai'r dogfennau a defnyddwyr y dogfennau hynny ar eu hennill o'u hail-leoli (ac os mai am un adnau y sonnir, y cafwyd caniatâd y rhoddwr).

7.2 Bydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd, yn unol a dymuniadau a gofynion y rhoddwyr, yn mantoli ac yn dewis i'w difa y dogfennau hynny na thybir eu bod yn werth eu cadw'n barhaol.

7.3 Mae Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn derbyn yr egwyddor y dylai rhagdyb cryf fodoli yn erbyn gwaredu trwy werthiant unrhyw ddogfennau yn eu meddiant.

8. Gwneir pob ymdrech i gatalogio dogfennau a geir gyda golwg ar ganiatâu mynediad atynt gan y cyhoedd, yn amodol ar unrhyw ofynion am gyfrinachedd a/neu ddymuniadau perchennog neu roddwyr.

Anogir defnydd o'n daliadau yn mhob cyfrwng yn enwedig ar ein safleoedd we.

9. Caiff petheuach amgueddfeydd a dderbynnir gydag eitemau archifol eu trosglwyddo i Adain Amgueddfeydd yr Adran.